LLEWYRCHED FELLY EiCH GOLEUNI

# Y Llusern

Eglwys Ebeneser Tachwedd/ Rhagfyr 2023 Cyfrol 94 Rhif 6

***Achos mae plentyn wedi cael ei eni i ni,***
***mab wedi cael ei roi i ni.***
***Bydd e'n cael y cyfrifoldeb o lywodraethu.***
***A bydd yn cael ei alw yn***
***Strategydd rhyfeddol, y Duw arwrol,***
***Tad yr oesoedd, Tywysog heddwch.***

*Eseia 9:6 beibl.net*

★★★★★★

*Felly gan fod Joseff yn perthyn i deulu'r Brenin*
*Dafydd, gadawodd Nasareth yn Galilea,*
*a mynd i gofrestru yn Jwdea – yn Bethlehem,*
*hynny ydy tref Dafydd.*
*Aeth yno gyda Mair oedd yn mynd i fod yn wraig*
*iddo, ac a oedd erbyn hynny'n disgwyl babi.*
*Tra oedden nhw yno daeth yn amser i'r babi*
*gael ei eni, a dyna lle cafodd ei phlentyn*
*cyntaf ei eni – bachgen bach.*

Luc 2:4-7a beibl,net

# HEDDWCH AR Y DDAEAR.

Mae yna rai hanesion anhygoel yn y Beibl.  Pethau sy'n anodd iawn dychmygu sut brofiad fyddai bod yno ar y pryd.  Un o'r rheiny, i mi, ydy'r hanes am yr angylion yn ymddangos i'r bugeiliaid ym Methlehem.  Mae yna sawl hanes yn yr Hen Destament am un angel yn ymddangos i bobl (dro arall dau neu dri), ond yn yr hanes yma, ar ôl i'r angel cyntaf gyhoeddi'r newyddion da fod y Meseia wedi dod *"yn fabi bach wedi ei lapio mewn cadachau ac yn gorwedd mewn cafn bwydo anifeiliaid"* mae yna rywbeth rhyfeddol yn digwydd: *"Yn sydyn dyma filoedd o angylion eraill yn dod i'r golwg, roedd fel petai holl angylion y nefoedd yno yn addoli Duw!"* Waw!  Gallwn ddarllen yn Llyfr y Datguddiad am weledigaethau rhyfeddol o'r nefoedd gafodd Ioan pan oedd wedi ei alltudio i Ynys Patmos, ond yma criw o fugeiliaid cyffredin welodd y digwyddid, a chlywed cân yr angylion:



*"Gogoniant i Dduw yn y nefoedd uchaf,*
*Heddwch ar y ddaear islaw,*
*a bendith Duw ar bobl."*

A dim jest gwefr yr olygfa ryfeddol o'u cwmpas nhw sy'n tanio fy nychymyg i.  Mae geiriau cân yr angylion yn fy herio i.  Does gen i ddim problem hefo'r llinell gyntaf – *"Gogoniant i Dduw yn y nefoedd uchaf!"*  Y ddwy linell arall sy'n anodd i'w credu – *"Heddwch (neu 'dangnefedd') ar y ddaear, a bendith Duw ar bobl."*  Sut allan nhw ddweud y fath beth?  Roedd y Rhyfel Byd Cyntaf yn cael ei alw "Y rhyfel i roi diwedd ar bob rhyfel".  Ychydig yn anodd i'w gredu wrth i ni edrych yn ôl ar yr ugeinfed ganrif a chwarter cyntaf y ganrif bresennol!

Nid gwawdio ydy mwriad i wrth ddweud hynny, ond ein hannog i ystyried realiti ein byd. Meddyliwch am yr holl ryfeloedd sydd wedi (ac yn cael) eu hymladd ers y Rhyfel Byd Cyntaf. A dyma ni heddiw yn 2023! Does dim dianc oddi wrth erchylltra'r hyn sydd yn digwydd yn y gwrthdaro rhwng Israel a Hamas. Mae wedi bwrw'r rhyfel rhwng Rwsia ac Iwcraen i'r cysgodion ers wythnosau! Ond mae'r gwrthdaro hwnnw'n parhau heddiw, a wyddoch chi fod yna o leiaf ddwsin o ryfeloedd yn cael eu hymladd yn ein byd ar hyn o bryd? Felly, beth ydy ystyr *"Heddwch ar y ddaear islaw, a bendith Duw ar bobl."*?

Y Nadolig yma eto bydd proffwydoliaeth enwog Eseia am ddyfodiad y Meseia i'n byd yn cael ei darllen mewn eglwysi ar hyd a lled y wlad ... a'r byd: *"Achos mae plentyn wedi cael ei eni i ni, mab wedi cael ei roi i ni..."* (Eseia 9:6-7). Un o'r teitlau mae Eseia'n ei roi iddo ydy *"Tywysog Heddwch"* (neu *"Tywysog Tangnefedd"*), ond beth mae hynny'n ei olygu?

Yr hyn roedd yr angylion yn ei wneud oedd datgan beth fyddai canlyniadau geni Iesu i'n byd. Yn y Beibl, mae'r gair 'heddwch' yn golygu mwy nag absenoldeb rhyfel; mae'n cyfeirio yn y lle cyntaf at heddwch rhwng pobl a Duw. Mae'r Beibl yn dysgu na fydd diwedd i drais a chasineb a rhyfeloedd nes bydd diwedd ar wrthryfel pobl yn erbyn Duw ei hun yn gyntaf. Yng ngeiriau Iesu Grist: *"Heddwch – dyna dw i'n ei roi yn rhodd i chi; yr heddwch go iawn sydd gen i, a neb arall, i'w roi. Dw i ddim yn rhoi heddwch yn yr un ffordd a'r byd."* (Ioan 14:27). Sôn mae Iesu yn y bennod yma am sut mae dod i berthynas iawn gyda Duw.



Mae'n dweud mai fo ydy'r ffordd, ac yn gwahodd pobl i gredu ynddo.

Yna, mae'n dweud wedyn y bydd yn rhoi yr Ysbryd Glân i'r rhai hynny sy'n credu ynddo. Beth mae'r Beibl yn ei ddweud ydy mai symptomau o broblem ddyfnach ydy'r holl arfau a'r gwrthdaro a'r rhyfeloedd yn ein byd. Dydy delio hefo'r symptomau ddim yn iachau'r clefyd. Ond mae Iesu, y meddyg da, yn gallu delio hefo gwreiddyn ein problem.

Yn ei lythyr at y Rhufeiniaid mae'r apostol Paul yn sôn am ddrygioni'r ddynoliaeth, sydd wedi gwrthod Duw a gwrthryfela yn ei erbyn. Mae o



hefyd yn dangos nad oes yna neb yn gallu pwyntio bys at bobl eraill a honni mai nhw ydy'r broblem. Mae Paul yn cyfarch pobl *"sydd mor barod i farnu pobl eraill a gosod dy ffon fesur arnyn nhw!"* (Rhufeiniaid 2:1) ac hefyd yr Iddewon crefyddol oedd yn *"brolio fod gen ti berthynas â Duw am fod gen ti'r Gyfraith"* ac yn *"gweld dy hun fel rhywun sy'n gallu dangos y ffordd i bobl eraill,"* (Rhufeiniaid 2:17,19). Beth mae Paul yn ei ddangos ydy fod pawb yn yr un twll – mae **pawb** wedi methu. Wnawn ni ddim sortio allan broblemau mawr y byd yn ein nerth ein hunain.

Mae'n mynd ymlaen wedyn i sôn am yr heddwch a'r llawenydd sy'n dod o fod mewn perthynas iawn gyda Duw: *"Felly, gan ein bod ni wedi'n derbyn i berthynas iawn gyda Duw, drwy gredu, mae gynnon ni* ***heddwch*** *gyda Duw o achos beth wnaeth ein Harglwydd ni, Iesu y Meseia."* (Rhufeiniaid 5:1). Ond mae yna fwy iddi na hynny, hyd yn oed! O Rhufeiniaid 6 ymlaen, mae Paul yn dangos mai nid jest derbyn maddeuant Duw a bywyd tragwyddol ydy canlyniad aberth Iesu Grist. Mae'n alwad i fywyd newydd. Mae bywydau'r rhai sy'n credu ynddo yn cael eu trawsnewid – nid ganddyn nhw eu hunain gyda'u hargy-hoeddiadau newydd, ond gan Ysbryd Glân Duw ei hun. *"Os mai'r*

*hunan sy'n eich rheoli chi, byddwch chi'n marw. Ond os ydy'r Ysbryd Glân yn eich rheoli chi, mae gynnoch chi fywyd a* ***heddwch perffaith gyda Duw."*** (Rhufeiniaid 8:6). *"Gadewch i Dduw newid eich bywyd chi'n llwyr drwy chwyldroi eich ffordd o feddwl am bethau. Byddwch yn gwybod wedyn beth mae Duw eisiau, ac yn gweld fod hynny'n dda ac yn ei blesio fe, ac mai dyna'r peth iawn i'w wneud."* (Rhufeiniaid 12:2).



Mae Paul yn dweud, ar ddiwedd ei lythyr, sut mae byw y bywyd yna o gariad a hunan-aberth. Mae'n adleisio geiriau Iesu am garu gelynion: "*Peidiwch melltithio'r bobl hynny sy'n eich erlid chi – gofynnwch i Dduw eu bendithio nhw ... Peidiwch mynnu dial ar bobl..."* (Rhufeiniaid 12:14,19) Ac yn ei lythyr at yr Effesiaid mae'n annog Cristnogion i fod ag agwedd debyg yn eu perthynas â'i gilydd: *"Byddwch yn ostyngedig ac addfwyn bob amser; byddwch yn amyneddgar, a goddef beiau eich gilydd mewn cariad."* (Effesiaid 4:2) Ydy, mae'r eglwys yn cael ei galw i fod yn fynegiant real o'r heddwch ddaeth i'n byd ym mherson Iesu, y Meseia.

**Arfon Jones**

**(Addasiad o erthygl baratowyd i Undeb yr Annibynwyr yn 2017. Defnyddir gyda chaniatâd.)**

---

***"Achos mae plentyn wedi cael ei eni i ni, mab wedi cael ei roi i ni. Bydd e'n cael y cyfrifoldeb o lywodraethu. A bydd yn cael ei alw yn Strategydd rhyfeddol, y Duw arwrol, Tad yr oesoedd, Tywysog heddwch. Fydd ei lywodraeth ddim yn stopio tyfu, a bydd yn dod â llwyddiant di-ben-draw i orsedd Dafydd a'i deyrnas." (Eseia 9: 6-7)***

# Teyrngedau

### *Margaret Jones, 1933–2023  gan ei mab, Dafydd*

Cadwodd Mam y geirie hyn yn agos ati o'r amser y collodd fy nhad, dros ugain mlynedd yn ôl: "Dim ond adlais a geisiaf o'r heddwch a'r rhyddid perffeithiaf; y byd oedd o hyd yn haf, a'r oriau'n oriau araf." Mam oedd Margaret Jones – Davies gynta, Jones wedyn – a'r pethe pwysig iddi ar hyd ei bywyd oedd ei ffydd, ei theulu a'i phlant. Roedd hi'n flodyn gwyn yn llwch y glo, wedi'i magu yn Nhai'r Gwaith, Gwaun-Cae-Gurwen, yn ferch i John Moc, glöwr a oruchwyliau'r ffrwydron yn yr East Pit, a Sarah Louisa, ei mam gariadus Gymreig. Ei dwy chwaer, Beti (yr agosa mewn oedran) a Saran (yr hynaf), oedd yn cyfannu teulu tŷ rhif saith, Glanyrafon.

Carreg lefn ffydd fy mam oedd anghydffurfiaeth pen ucha' Cwm Tawe, yng ngolwg y Mynydd Du ac yn y golau'n tywynnu o gapel Carmel ar y Waun. Ffydd gyson a diwyro oedd ganddi o flynyddoedd cyfoethog ei hieuenctid, yn dyst i ryfel byd ac awyrennau bomio uwchben creithiau diwydiant y cwm. Ysgwyddodd Mam ei chyfrifoldebau'n ifanc, ar aelwyd gapelgar gyda sŵn cerddoriaeth yr hen gyfieithiad yn ei chlustiau, ac anrhydeddai ei mam a'i thad ar bob achlysur yn ferch o urddas ac egwyddor. Deallodd (a deallwn innau'n ddiweddarach) fod ei moesoldeb yn lyw iddi – dewis, nid diniwei-drwydd, fyddai'n llywio pob penderfyniad. Fel mamau dirifedi (y gallwn eu henwi'n rhwydd) i'm cenhedlaeth i yn Ebeneser, o wneud unrhyw beth yna byddai Mam yn ei wneud yn iawn. Roedd tair rhan i bob tasg, beth bynnag ei faint: sef y paratoi; yna'r gwaith ei hun; ac yna rhoi trefn eto ar bopeth wedi gorffen. Roedd Mam yn destlus ac yn ddiwyd, a chreodd harddwch i lenwi ei byd hi a byd fy nhad, ac, yn y pen draw, fydoedd bach aelodau ei theulu.

Gwridodd y blodyn gwyn yn ei ugeiniau pan gyfarfu â 'nhad, sef Arwyn o Lambed. Roedd y ddau ohonynt ar drothwy gyrfaoedd mewn addysg, er i'r cychwyn ymylu ar fod yn drychinebus pan aeth Mam i begwn y gogledd tra yn ymarfer dysgu. Doedd hi ddim yn deall plant ysgol Amlwch yn siarad Cymraeg, ac, yn waeth byth, doedd plant Amlwch ddim yn ei deall hi! Erbyn diwedd y 1950au, roedd Mam a Dad wedi priodi a sefydlu eu cartre yng Nghaerdydd, a threuliodd Mam ran helaeth o'i gyrfa wedi hynny yn athrawes ar genedlaethau o blant Tongwynlais. O'r amser y cyrhaeddais i ac Alun fy mrawd ymhen ychydig flynyddoedd, gan darfu'n aflafar ar yr heddwch, mae gen i gof disglair o'r wraig brydferth hon y byddwn yn ei galw'n "Mam" am weddill ei hoes.

## *Teyrnged Hazel Doull, 1934-2023 gan Alun Tudur*

Roedd Hazel yn un o ddau blentyn i Mary a Edward, enw ei brawd yw Keith ac nid oedd ef yn gallu ymuno gyda ni heddiw gwaetha'r modd. Gan fod ei thad yn blismon fe symudodd y teulu o ardal i ardal tros y blynyddoedd. Dechreuodd y daith i Hazel ym mis Chwefror 1934 pan anwyd hi yn Nhanygrisiau. Mae Tanygrisiau yn bentref bychan yng nghesail y mynydd wrth ymyl tref Blaenau Ffestiniog ac yn gymuned glos Gymraeg ei hiaith.

Post diwethaf ei thad fel plismon oedd ym mhentref enwog Pennal. O'r pentref hwn yr anfonodd Owain Glyndŵr ei lythyr at Frenin Ffrainc yn Avingion yn gofyn am ei help i gael Cymru Annibynnol. Yn y cyfnod hwn fe drawyd Hazel yn sâl gyda TB a bu rhaid iddi aros gartref am flwyddyn nes iddi gryfhau.

Cafodd swydd gyda'r BBC ac yno y cyfarfu gyda Ted ac ym 1959 fe briododd y ddau yn yr hen Ebeneser, yn Paradise Place. Setlo i lawr wedyn mewn tŷ newydd sbon yn 131 Heol Llanisien Fach lle buont fyw yn hapus am weddill eu hoes. Yno y magwyd y bechgyn Iolo, Alun ac Iwan gan roi cartref dedwydd a chariadus iddynt. Roedd bob amser groeso cynnes ar ei haelwyd a digon o fwyd i bob un oedd yn taro heibio. Ac wrth gwrs roedd yn hoff iawn o'r wyrion i gyd ac yn mwynhau eu cwmni.

Roedd yn aelod ffyddlon o Eglwys Ebeneser am gyfnod o 70 mlynedd ac yn rhan allweddol o deulu'r eglwys. Roedd magu'r bechgyn yn y ffydd Gristnogol yn bwysig iddi. Roedd yn aelod ffyddlon o Gymdeithas y Chwiorydd, oedd yn gymdeithas gref pan ddeuthum yma. Yn llawn egni, yn cynnal rhaglen wythnosol trwy gydol y gaeaf. Fe ges i'r fraint o fynd ar eu holl wibdeithiau blynyddol ar hyd a lled De Cymru a gorllewin Lloegr. Hwyl a sbort yng Nghwmni ei gilydd.

Y tro olaf i Hazel lwyddo i ymuno gyda ni mewn oedfa oedd bore dydd Nadolig diwethaf yng nghapel y Methodistiaid. Ac mor braf oedd cael ei chwmni hi a'r teulu i gyd. Fel Cristnogion Newyddion Da sydd yn Iesu Grist. . Mae cymdeithas fodern yn ymdrybaeddu mewn anobaith anghrediniaeth a difodiant terfynol pawb ac rydym yn gwybod yn iawn am raib a thristwch marwolaeth. Trwy ei farwolaeth ar y Groes dros ein pechodau a'i atgyfodiad y mae Iesu yn dod a buddugoliaeth i bob un sy'n credu ynddo.

## *Teyrnged i Mair Bennett, 1931-2023 gan Alun Tudur*

Roedd Mair yn un o golofnau eglwys Ebeneser dros y degawdau. Mewn gwirionedd yn un o genhedlaeth o bobl sydd wedi cynnal achos Iesu Grist oherwydd eu ffydd gadarn a'u haelioni mawr. Nid oedd yn berson cyhoeddus oedd yn hoff o fod o flaen cynulleidfa ond roedd yn aelod ffyddlon o Sul i Sul ac i weithgareddau yn ystod yr wythnos. Roedd yn wraig addfwyn, feddylgar, doeth a chefnogol. Yr oedd yn gweini wrth y byrddau, yn arllwys te yn paratoi bwyd ac yn clirio ar ôl gweithgareddau. Cyfraniad cwbl hanfodol i fywyd eglwys.

Roedd hithau fel dwy arall yr ydym wedi ffarwelio â hwy yn ystod y mis diwethaf sef Margaret Jones a Hazel Doull yn aelod triw o Gymdeithas y Chwiorydd cymdeithas sydd wedi cyfrannu cymaint at fywyd Ebeneser gyda'u gweithgareddau, eu cyfraniadau at elusennau, eu cyflwyniadau, eu hoedfaon arbennig a'u gwibdeithiau chwedlonol. Er eu bod yn griw o wragedd oedd wedi ymddeol roedd egni mawr yn perthyn iddynt a Mair yn y canol y cyfrannu ac yn mwynhau'r cyfeillgarwch clos oedd rhyngddynt yn seiliedig ar eu ffydd yn Iesu.

Er i wendid ei hatal rhag ymuno gyda ni ers rhai blynyddoedd erbyn hyn roedd ganddi ddiddordeb mawr ym mywyd a gwaith Ebeneser yn darllen y daflen wythnosol a'r Llusern ac yn cael y wybodaeth ddiweddaraf gan Petra o Sul i Sul.

Roedd Mair yn wraig oedd a ffydd yn Iesu Grist fel ei Harglwydd, yn gwerthfawrogi gweinidogaeth a gweddi. Pan oeddwn yn ymweld â hi roeddwn yn gofyn cyn gadael a hoffech chi i mi weddïo dros rywbeth yn arbennig. Cyfeiriau ran amlaf at 3 pheth yn arbennig, rhai o aelodau o'i theulu oedd wedi bod yn sâl, eglwys Ebeneser a Petra.

Diolch i Dduw amdani ac am gael ei galw yn ffrind. Wrth ffarwelio gyda Mair rydym yn gwneud hynny yng ngoleuni atgyfodiad Iesu Grist a'i fuddugoliaeth dros angau.

Mae'r Beibl yn ein dysgu mai canlyniad ein gwrthryfel yn erbyn Duw yw marwolaeth. Ysgrifennodd Paul,

"Y mae pechod yn talu cyflog, sef marwolaeth; ond rhoi yn rhad y mae Duw, rhoi bywyd tragwyddol yng Nghrist Iesu ein Harglwydd." (Rhuf. 6:23)

Fe ddeliodd yr Arglwydd Iesu trwy ei fywyd perffaith a'i farwolaeth ar y groes gyda'r pechod sy'n ein gwahanu oddi wrth Dduw gan ein cymodi gydag Ef. A thrwy ei atgyfodiad ar y trydydd dydd fe

ddangoswyd fod marwolaeth wedi colli ei rym ar bob un sy'n credu ynddo. Canlyniad arall yr atgyfodiad yw fod Iesu gyda'i bobl trwy yr Ysbryd Glân bob amser hyd ddiwedd y byd. O ganlyniad gallwn ganu gyda Thomas Jones:

Mi wn fod fy Mhrynwr yn fyw,
a'm prynodd â thaliad mor ddrud;
fe saif ar y ddaear, gwir yw,
yn niwedd holl oesoedd y byd:
er ised, er gwaeled fy ngwedd,
teyrnasu mae 'Mhrynwr a'm Brawd;
ac er fy malurio'n y bedd
ca'i weled ef allan o'm cnawd.

Wel, arno bo 'ngolwg bob dydd,
a'i daliad anfeidrol o werth;
gwir awdur, perffeithydd ein ffydd,
fe'm cynnal ar lwybrau blin serth:
fy enaid, ymestyn ymlaen,
na orffwys nes cyrraedd y tir,
y Ganaan dragwyddol ei chân,
y Saboth hyfrydol yn wir.

---

## Ffynhonnau Byw



Cofiwch ein bod wedi mabwysiadu elusen ddewisedig yr Undeb, sef Apêl Cymorth Cristnogol Ffynhonnau Byw. Mae rhai cynlluniau eisoes ar y gweill i godi arian, a bydd mwy i'w adrodd yn fuan.

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl aelodau Ebeneser a darllenwyr Y Llusern.*

## NEWYDDION

### Cleifion

Cofiwn am ein haelodau sydd yn derbyn triniaethau ar hyn o bryd sef Annick Moseley, Melora Parry a Helen Hilling.

Bu'n hyfryd croesawu Myra Ford a Gill Lewis yn ól i'r oedfaon yn ddiweddar wedi llawdriniaeth a Malcolm Thomas hefyd, wedi cyfnod o salwch. Rydym hefyd yn hynod falch bod Gwilym Jeffs yn cryfhau wedi salwch difrifol yn gynharach yn y flwyddyn. Mae Eira Jones yn Ysbyty'r Waun ar ôl codwm yn ddiweddar. Dymunwn adferiad buan iddi. Mae Arwel Peleg Williams adre'n cryfhau ar ôl cyfnod byr yn Ysbyty'r Waun. Mae Eleri Peleg Williams yn ymgryfhau ar ôl cael llawdriniaeth. Cofiwn hefyd am ein cyd aelodau sydd mewn cartrefi gofal neu yn gaeth i'w cartrefi sef Rosaline Bowen, Delor Wedlake, Rhiannon Jones a Mair Evans.

**Llongyfarchiadau** ,,,i'n haelod hynaf, Mair Evans, Maesglas ar ddathlu ei phen-blwydd yn 101 oed ar 1af o Hydref. Daeth gair o werhfawrogiad ganddi at aelodau a chymdeithas Ebeneser – "Diolch yn fawr iawn i fy ffrindiau yn Ebeneser am eu caredigrwydd ar achlysur fy mhenblwydd eleni eto. Cefais ddiwrnod hapus yng nghwmni fy nheulu. Diolch hefyd am eich ffyddlondeb ac am yr atgofion o flynyddoedd hapus a bendithiol yn eich cwmni."

### Cyfarfodydd Hanner Blynyddol

Ar ddydd Sul Hydref 8fed cawsom gwmni'r Parchedig Rosa Hunt, gweinidog Eglwys Y Tabernacl, yr Ais. Diolch am ei neges yn y ddwy oedfa.

### Colled

Trist oedd clywed am farwolaeth Elizabeth Pierce (Betty), mam Vikki Tudur ar 26ain o Hydref, yn 94 oed yn Ysbyty Dewi Sant. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Alun a Vikki a'r teulu. Bu gwasanaeth i ddiolch am ei bywyd yn Nghapel Briwnant, Thornhill ar 17eg o Dachwedd.

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Val Scott ar Dachwedd 23ain yn 80 oed ar ôl cyfnod hir o salwch. Pob cydymdeimlad â'r teulu.

Cydymdeimlad dwysaf i deulu Glesni Whettleton. Bu farw Glesni yn dawel ar Dachwedd 27ain ar ôl cyfnod hir o salwch. Coffa da amdani.

### Diolch

Dymuna Petra ddiolch o gallon i deulu Ebeneser am bob arwydd o gydymdeimlad yn dilyn ei phrofedigaeth, ac am y rhoddion hael i elusen Apêl Arch Noa, er cof am Mair.

### Casglu sbwriel

Aeth criw allan fore Sadwrn 21ain o Hydref a Thachwedd 11eg i gasglu sbwriel yn ardal yr Eglwys Newydd, gan orffen am

baned yng Nghaffi'r Roundabout. Ein bwriad yw codi ymwybyddiaeth o bresenoldeb yr eglwys yn y gymuned, i fod yn stiwardiaid dros yr amgylchedd a'r ardal leol, i arddangos rhinweddau Cristnogaeth ymarferol drwy wasanaethu eraill yn y gymuned, a chael cyfle i sgwrsio â'r cyhoedd am waith yr eglwys. Byddwn yn cwrdd i gasglu nesaf, tu allan i brif giatiau'r parc ger Llyfrgell yr Eglwys Newydd, fore Sadwrn, Rhagfyr 2ail rhwng 10:00 ac 11:00 o'r gloch. Croeso i unrhyw un ymuno â ni. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â John_hayes1@hotmail.com




**Cefnogi'r Ganolfan Glyd (Tabernacl, yr Ais):**

Pleser yw cefnogi gwaith y Ganolfan Glyd yn Eglwys y Tabernacl pob prynhawn dydd Mercher ac ar y cyd gydag eglwysi Cymraeg y ddinas ar rota misol ar brynhawn Sul. Mae criw niferus yn cael eu bwydo pob dydd Mercher a dydd Sul gan dderbyn pryd poeth blasus, wedi'i ddarparu gan Giovanni's, y bwyty Eidalaidd drws nesaf i'r eglwys. Diolch i aelodau'r eglwys sydd yn gwirfoddoli yn y Ganolfan Glyd. Byddai unrhyw gyfraniadau o ddillad, yn enwedig cotiau, sannau a siwmperi yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan y bobl sydd yn mynychu'r Ganolfan Glyd. Byddwn yn parhau i gefnogi gwaith canolfan Enfys



Gobaith, Splott, gyda cyfraniadau o fwydydd sych sydd yn cael eu cyfrannu yn rheolaidd gan aelodau'r eglwys. Diolch i bawb am eu cyfraniadau hael i gefnogi gwaith yr eglwys gyda'r di-gartref a'r anghenus.

Am fwy o wybodaeth am Y Ganolfan Glyd, cysylltwch â John Hayes. Cysylltwch â Tudur Jones am waith Enfys Gobaith.

Ar ôl 22 mlynedd o drefnu gwirfoddolwyr i helpu gyda bwydo'r digartref, teimla Enfys Harding ei bod yn amser iddi drosglwyddo'r awenau. Diolcha i bawb a fu'n rhan o'r tîm dros y blynyddoedd, a dywed y bu hi'n fraint ein cynrhychioli. Dymuna pob bendith a llwyddiant i'r Ganolfan Glyd, sy'n mynd o nerth i nerth. Dioch i Enfys am ei holl waith.

## Cyngerdd Côr Caerdydd, Tachwedd 15fed, 2023



Roedd hi'n hyfryd cael cynulleidfa lawn yn yr Eglwys Fethodistiaid, Yr Eglwys Newydd ar nos Fercher, Tachwedd 15fed i fwynhau cyngerdd bendigedig gan Côr Caerdydd. Codwyd swm anrhydeddus iawn; £1,500.00 at yr apêl a gefnogir gan fudiad yr Annibynwyr yng Nghymru eleni.

Cafwyd amrywiaeth o ddarnau corawl cyfoethog yn hanner cyntaf y cyngerdd gan gynnwys cyfieithiad Ceri Wyn Jones o waith John Rutter, 'Bendith Clare'; Laudate Dominum, Mozart; Rho im Iesu, Benjamin Harlan; Ev'ry time I feel the spirit, Bob Chilcott; Finlandia, trefniant Jeff Howard ac Un ydym ni, Caryl Parry Jones.

Yn ogystal, pleser oedd gwrando ar unawdwyr dawnus; Aled Wyn Thomas (tenor) yn canu Llanrwst gan Gareth Glyn; Dafydd Huw (piano) yn chwarae Fel yr hydd a Llio Rhys (soprano) yn canu Adre gan Caryl Parry Jones.

Cafwyd anerchiad gan Catrin Jên am apêl yr Annibynwyr eleni, sef Ffynhonnau Byw Colombia. Requiem op.48, Gabriel Fauré oedd uchafbwynt y noson yn ail hanner y cyngerdd gyda'r unawdwyr; Emma Watt a Iwan Llechid yn serennu.

Wrth adael y cyngerdd, roedd pawb yn unfrydol ei bod yn noson i'w chofio yng nghwmni un o gorau mwyaf llwyddiannus Cymru. Diolch o galon i'r côr am berfformio ac i Gwawr Owen am arwain y côr ac i Dafydd Huw am gyfeilio.

## Gwasanaethau ar CD

Os hoffech gael copi o'r gwasanaethau ar y Sul ar CD wedi ei bostio i'ch cartref cysylltwch gyda Tudur Jones.

## Bwydydd sychion a thun

Mae elusen Enfys Gobaith yn ddiolchgar iawn o'r bwyd yr ydych wedi eu cyfrannu yn ystod y misoedd diwethaf. Maent yn cael eu rhoi yn gyson i'r anghenus yma yng Nghaerdydd. Diolch i chi am eich haelioni. Byddwn yn casglu bwydydd sychion yn ystod yr wythnos gyntaf lawn o bob mis. Os hoffech gyfrannu, tuniau llysiau, ffrwythau, cig, pysgod, cawl, ffa ayyb; pasta, reis, te, coffi, llaeth UHT byddem yn dra diolchgar. Cysylltwch gyda Tudur Jones er mwyn trefnu casglu.



## E-bost

Os hoffech dderbyn e-bost wythnosol Ebeneser anfonwch neges at ebenesercaerdydd1@gmail.com

## Recordiadau

Gellir gwrando ar holl bregethau Ebeneser ar wefan Soundcloud. Maent yn cael eu gosod yno'n wythnosol. Diolch i Tudur. Gellir gwylio ffrwd byw o oedfa bore Ebeneser ar ein tudalen Facebook ac yna ar Youtube. Diolch yn fawr iawn i Seren Jones am ei help.

## Tîm Digidol

Rydym yn chwilio am aelodau i helpu gydag ochr ddigidol bywyd Ebeneser. Bellach yn wythnosol y mae elfennau digidol sydd yn rhan bwysig o'n gwaith a'n tystiolaeth. e.e., PowerPoints, ffrwd byw, podlediad, Youtube, Trydar ('X'), Gweplyfr (Facebook), cryno ddisgiau o'r oedfaon a'r wefan.

## Gosod a Gofal

Hoffem ddiolch i'r holl aelodau sydd wedi cynorthwyo gyda gosod popeth yn ei le ar fore Sul. Mae wedi golygu llawer o waith ychwanegol. Diolch i Eynon am baratoi'r rota ac i Tudur, John a Petra am eu holl help

---

## CYFRANIADAU

Diolch yn fawr iawn i bawb ohonoch sydd wedi anfon cyfraniadau at waith Eglwys Ebeneser yn ystod 2023 hyd yn hyn. Byddem yn gwerthfawrogi pe byddech yn cwblhau eich cyfraniadau am y flwyddyn cyn diwedd mis Rhagfyr. Gwerthfawrogwn yn fawr iawn eich haelioni tuag at waith hollbwysig yr Arglwydd Iesu trwy gyfrwng Ebeneser. Mae nifer o aelodau bellach yn cyfrannu'n fisol trwy archeb banc. Os nad ydych eto wedi cael cyfle i gyfrannu hoffem eich gwahodd i barhau i gyfrannu at waith yr eglwys, un ai: trwy siec yn daladwy i Eglwys Ebeneser Caerdydd, at y Trysorydd, Eilir Jones, 9 Clos y Bryn, Caerdydd. CF14 6TR. Neu, taliad yn uniongyrchol i gyfrif banc HSBC yr Eglwys – cod sortio 40-16-35, rhif y cyfrif 81042882, gan nodi eich enw fel cyfeirnod.

# Cyfarfodydd Angor

CANOLFAN REACH

GRANGETOWN

## Beth ydy Angor?

Ar hyn o bryd rydan ni'n cyfarfod yn y p'nawn ar bob ail a phedwerydd Sul y mis yng nhganolfan cymunedol 'The Reach Centre'. Dyn ni'n cynnal gwasanaeth anffurfiol, 'ben i waered' gyda the a choffi a bisgedi i ddechrau, cyn ein bod ni'n cael cyfnod o addoliad a gweddi gyda'r plant. Fel arfer, mae'r plant yn gadael i wneud clwb tra bod pregeth fer ac amser i ymateb.

Mae cyfieithu ar y pryd a thaflen gyda'r prif bwyntiau ar gyfer unrhyw ddysgwr neu unrhyw un di-Gymraeg. Mae'r niferoedd wedi tyfu yn raddol i tua 30 o oedolion ac oddeutu 10 o blant ond ein gobaith yw i weld mwy o unigolion a theuluoedd lleol, sydd ddim eto yn addoli mewn unrhyw fan, yn dod yn rhan o'r gymuned.

## Beth ydy'r weledigaeth?

Er ein bod ni'n cynnal gwasanaethau rheolaidd, y bwriad yw nid yn unig cynnal gwasanaeth - ond plannu hadau yr efengyl yn y gymuned. Rydyn ni eisiau gwasanaethu yr ardal, gwneud cysylltiadau, cwrdd â ffrindiau a charu Grangetown. Bydden ni wrth ein boddau yn gweld mwy o bobl yn ymuno gyda ni yn y daith ac yn dod i brofi cariad Duw drostyn nhw eu hun. Rydyn ni'n gobeithio cynnal cwrs Alffa yn y flwyddyn newydd fydd yn gyfle gwych i drafod a chwestiynnu seiliau a chredoau y ffydd Gristnogol mewn modd anffurfiol. Rydyn ni hefyd yn dechrau gwneud ymholiadau am leoliad newydd gan ein bod ni'n tyfu allan o'r ganolfan presennol ac nid oes digon o le ar gyfer y gwaith plant.

## Ydy o ar wahân neu dal yn rhan o Ebeneser?

'Babi' Ebeneser ydy Angor. Mae Angor wedi'i ariannu ar y cyd gan Ebeneser a chronfa 'Buddsoddi ac Arloesi'. Rydyn ni hefyd yn cydweithio gyda nifer o fudiadau gwahanol e.e. rydyn ni'n derbyn hyfforddiant gan gynllun Derwen sydd yn rhaglen traws-enwadol i geisio annog ac arfogi gwaith 'arloesol' mewn eglwysi yng Nghymru. Rydyn ni hefyd yn ran o rwydwaith 100 i Gymru sydd gweithio tuag at wireddu'r weledigaeth o weld 100 o eglwysi yn cael eu plannu ar hyd a lled Cymru mewn 10 mlynedd. Gellir cael mwy o wybodaeth am y ddau fudiad yma ar eu gwefannau: www.cgww.org/derwenproject a https://100.cymru/



# Calendr

Cynhelir oedfa'r bore yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd, Old Church Rd, CF14 1AD.

Cynhelir oedfa'r pnawn yng nghapel y Methodistiaid, Penlline Rd, CF14 2AA.

Cynhelir Angor ar yr ail ar pedwerydd Sul o bob mis yn Reach Centre, Avondale Street, Grangetown.

Pob nos Lun am 7.30 y,h., cynhelir y cwrdd gweddi yng nghapel y Methodistiaid ac ar Zoom. Dolen yn yr e-bost wythnosol.

## Sulau Rhagfyr

**3 Rhagfyr** - 10.00 yb yn CEN a 3.00yp. Yr Eglwys Fethodistaidd. Oedfaon dan ofal Alun. Cymun yn y pnawn.
**10 Rhagfyr** - 10.00 yb. Yn CEN. Oedfa dan arweiniad merched "Bythol Wyrdd" a Bore Coffi i ddilyn i godi arian i Apêl Ffynhonnau Byw.
3.00 yp Oedfa anffurfiol o ddarlleniadau a charolau o gwmpas byrddau yn festri yr Eglwys Fethodistaidd. Bydd paned a chacen, eto er budd yr elusen.
Gwasanaeth Nadoligaidd Angor Grangetown. 4.30 yp, Canolfan Reach, Channel View.
**17 Rhagfyr** - 10.00 yb Llanllanast i bawb yn CEN - "Iesu'n dod i'r byd." 6.00 yh - Oedfa ddwyieithog ar y cyd gyda'r Eglwys Fethodistaidd.
**24 Rhagfyr** - Gwasanaeth Noswyl Nadolig Ebeneser ac Angor Grangetown. 2.00 yp. Yr Eglwys Fethodistaidd, Yr Eglwys Newydd.

**25 Rhagfyr** - Oedfa fer yn yr Eglwys Fethodistaidd.
**31 Rhagfyr** - Gwasanaeth Plygain am 10:00 yn unig yn CEN.














*Croeso nôl i Alun o'i gyfnod Sabothol ar Sul cyntaf Rhagfyr.*